
# Celf y Gegin

## Ysgythru Cartonau Llaeth gydag Emma Jones

**Bydd angen i chi gael :**

Carton llaeth sydd wedi'i ddefnyddio, ei dorri'n agored a'i lanhau / Tetra Pak.
Siswrn.
Teclyn ysgythru e.e. cwmpawd, nodwydd drwchus, hoelen/sgriw.
Paent olew (mae olew yn cymryd yn hirach i sychu nag acrylig).
Papur – fe wnes i ddefnyddio 250 g/m2.
Plât gyda dŵr a sbwng. Llwy.



Pan fyddai'n gwneud celf i fi fy hun, rwy'n hoffi bod ar fy mhen fy hun heb unrhyw sŵn yn y cefndir neu dwi'n ei chael hi'n anodd canolbwyntio. Rydyn ni i gyd yn hoffi gweithio mewn amgylchedd gwahanol. Felly wrth ffilmio hwn, aeth popeth o'i le! Weithiau rydw i'n caru popeth rwy'n ei wneud a weithiau does gen i ddim byd i'w ddangos am yr amser. Hyd yn oed os yw hynny'n wir, nid yw'n wastraff amser ac mae'n debyg fy mod i wedi dysgu rhywbeth yn ystod y broses. Rwy'n hoffi natur fregus yr un wnes i brintio, ond fel rydw i'n pwysleisio yn y fideo, mae'n rhaid i chi fwynhau'r elfen arbrofol oherwydd dydych chi byth yn gwybod sut mae'n mynd i weithio.



Felly yn y fideo, fe wnes i argymell edrych ar ddail, blodau etc. oherwydd mae gan fyd natur batrymau anhygoel, ac mae'n dda i ni stopio ac edrych ar y manylion bach. Mae gan rai chwyn batrymau hyfryd ar eu dail a manylion blodau hefyd. Ond gallwch chi wneud unrhyw beth rydych chi ei eisiau! Fel y gallwch chi weld, rydw i'n hoffi tynnu lluniau adar, felly yn fy amser fy hun, ro'n i eisiau gwneud mwy o enghreifftiau i chi. Rydw i'n artist blêr iawn, felly yn lle defnyddio fy mysedd, y tro hwn fe wnes i dorri darn o rwber. Mae'n feddal, felly gallwch chi wthio'r paent i'r rhychau. Fe wnes i'r enghraifft hon drwy ddefnyddio sgriw i farcio'r ddelwedd ar y Tetra Pak.

1 Naill ai tynnwch lun yn uniongyrchol ar y Tetra Pak gyda'r teclyn neu dynnwch lun ac yna ei gopïo. Yn union fel y print polystyren, y ddelwedd o chwith fydd hon.

2 Gorchuddiwch mewn paent, a gyda'ch bys neu rwber etc. gwthiwch y paent i'r rhychau.



3 Tynnwch y paent sy'n weddill gyda lliain cotwm, tywel papur, ffyn cotwm etc. Gallwch gael gwared ar yr holl baent sy'n weddill neu sychu rhai mannau penodol. Ceisiwch chwarae ac arbrofi gyda chanlyniadau gwahanol.


4 Rhowch leithder ar eich papur, arbrofwch gyda lleithder neu wlybaniaeth. A oes gwahaniaeth? Pa un sydd orau?

5 Gosodwch y Tetra Pak wyneb i lawr, daliwch yn ei le gydag un llaw, a rhwbiwch â chefn y llwy gyda'r llaw arall. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi rhoi pwysau ar y ddelwedd gyfan.

6 Tynnwch y Tetra Pak yn ofalus i ddatgelu eich delwedd.



Os oes gennych beiriant pasta, gallwch ei ddefnyddio fel gwasg y gegin! Mae cefn llwy llawn cystal, ond os oes gennych un, mae'n dipyn o hwyl! Fe wnes i arbrofi gydag olew ac olew y gellir ei gymysgu â dŵr. Doedd dim llawer o wahaniaeth, ond dyma'r hwyl o roi cynnig ar wahanol opsiynau. Print gyda'r olew y gellir ei gymysgu â dŵr yw hwn.



Peth arall y gallwch arbrofi ag e yw defnyddio sgalpel i dorri unrhyw rannau o'r Tetra Pak. Byddwch yn ofalus nad ydych yn tynnu darnau eraill yn ddamweiniol. Roedd fy mhrint yn rhy ysgafn, felly ar brint arall, byddem yn ceisio gwthio mwy o inc i'r mannau hynny sydd wedi'u torri allan.

Gallwch hefyd dorri siâp i'w brintio fel nad oes unrhyw liw o amgylch eich delwedd. Rwy'n defnyddio fy ewinedd fan hyn i grafu rhywfaint o'r olew yn ofalus i weld a yw'n dangos yn y print.



Gallwch weld ei fod yn dangos yn y print. Fe wnes i brintio eto drwy ddefnyddio'r olew y gellir ei gymysgu â dŵr, a rhoddodd hynny orffeniad gwahanol. Wnes i ddim pwyso ar ben y gynffon, fel y gallwch weld, wnaeth hynny ddim printio. Dyma fy mhrintiau adar i gyd a gallwch weld eu bod nhw i gyd yn wahanol. Er nad oedd yn gweithio adeg ffilmio, rydw i wrth fy modd â'r broses hon. Mae'n gadael i chi roi cynnig ar broses ysgythru yn y gegin! Pob hwyl!





